

## Blaenoriaeth Strategol 1: Creu Gwell Dewisiadau

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Cyfrifoldeb                                                        | Ebrill 2022-Mawrth 2023 | 2023-24  | 2024-26  |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------|----------|
| <b>1. Cymorth i bobl sydd am brynu cartref</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                    | <b>X</b>                | <b>X</b> |          |
| 1. Cyflwyno a monitro'r nifer sy'n cymryd cynnyrch Perchentyaeth Cost Isel hyblyg i bobl sy'n dymuno prynu eu cartref ond na allant fforddio prynu heb gymorth ariannol.                                                                                                                                                           | Prif Swyddog Strategaeth Tai                                       | X                       | X        |          |
| 2. Archwilio'r potensial o gyflwyno cynnyrch tebyg ar gyfer eiddo sydd ar y farchnad dai yn barod.                                                                                                                                                                                                                                 | Prif Swyddog Strategaeth Tai                                       |                         | X        |          |
| 3. Ystyried sut y gall tenantiaid/deiliaid contract a oedd â'r Hawl i Brynu o'r blaen ddal i brynu cartref, gan ryddhau cartrefi cymdeithasol y mae galw mawr amdanynt.                                                                                                                                                            | Prif Swyddog Strategaeth Tai                                       |                         | X        |          |
| <b>2. Cymorth i bobl sydd yn berchen ar eu cartref</b>                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                    | <b>X</b>                | <b>X</b> |          |
| 1. Defnyddio Asesiad Marchnad Dai Leol 2022 i ystyried a oes angen cynnyrch i alluogi aelwydydd lleol i brynu tai mwy wrth i'w teuluoedd dyfu, a'r math o gynnyrch a allai roi cymorth i hyn.                                                                                                                                      | Prif Swyddog Strategaeth Tai                                       |                         | X        |          |
| 2. Archwilio potensial sut y gall cymorth ariannol gael ei gynnig i aelwydydd sydd angen addasu'n sylweddol dros yr uchafswm lwfans grant neu pan na ellir addasu cartrefi.                                                                                                                                                        | Rheolwraig Tai'r Sector Preifat                                    |                         | X        |          |
| <b>3. Cymorth i bobl sy'n rhentu cartref yn y Sector Rhentu Preifat</b>                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                    | <b>X</b>                | <b>X</b> | <b>X</b> |
| 1. Datblygu tudalen ar wefan y Cyngor sy'n rhoi man canolog i gael dolenni at gyngor a chymorth i denantiaid/ deiliaid contract sector preifat.                                                                                                                                                                                    | Rheolwraig Tai'r Sector Preifat / Rheolwr Atebion Tai              |                         | X        |          |
| 2. Archwilio offer a modelau newydd fel prydlesu a thrwsio, trwsio, a modelau gwerthu i ddwyn tai gwag yn ôl i ddefnydd ac ystyried arfer gorau mewn mannau eraill.                                                                                                                                                                | Rheolwraig Tai'r Sector Preifat                                    |                         | X        |          |
| <b>4. Cymorth i bobl sydd yn byw mewn tai cymdeithasol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                    | <b>X</b>                | <b>X</b> | <b>X</b> |
| 1. Ymchwilio i gyfleoedd yn y Stoc bresennol i wneud estyniadau ac addasu atigau i gynyddu'r nifer o ystafelloedd gwely a throsi rhai cartrefi yn fflatiau.                                                                                                                                                                        | Rheolwraig Gwasanaethau Tai                                        | X                       |          |          |
| 2. Archwilio'r dewisiadau o ran gwerthu stoc dros ben i brynwyr tro cyntaf neu aelwydydd sy'n cynyddu a defnyddio'r arian a dderbynnir i godi cartrefi newydd llai a mwy.                                                                                                                                                          | Rheolwraig Gwasanaethau Tai                                        | X                       |          |          |
| 3. Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i greu cronfa ar y cyd sy'n diweddarau stoc a chategoriâu meddygol ar gyfer yr holl dai cymdeithasol, gan adael i'r Tîm Atebion Tai gyfateb anghenion tenantiaid ag eiddo yn well.                                                                                                      | Uwch Ymarferydd Therapydd Galwedigaethol / Swyddog Strategaeth Tai |                         | X        |          |
| 4. Gweithio gyda'r holl landlordiaid cymdeithasol i ddatblygu safonau gwasanaeth cyson i gwsmeriaid.                                                                                                                                                                                                                               | Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid                                  |                         | X        | X        |
| 5. Sefydlu ffrwd waith i'r Bartneriaeth Cartrefi Fforddiadwy i ystyried camau i liniaru effaith yr argyfwng costau byw ar ddeiliaid contract tai cymdeithasol (archwilio pecyn cymorth tenantiaeth a datblygu dangosyddion perfformiad a rennir ar draws yr holl landlordiaid cymdeithasol i fonitro ein heffaith a'n llwyddiant). | Prif Swyddog Strategaeth Tai / Swyddog Strategaeth Tai             |                         | X        |          |

|                                                                                                                                                                                                                                                |                                                             |          |          |          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|----------|----------|----------|
| 6. Datblygu cronfa ddata gadarn o wybodaeth am denantiaid cyngor/deiliaid contract i alluogi dadansoddi rhagolygon fel dull o ddynodi'r angen fydd yn codi a theilwra'r gwasanaethau, gan ddefnyddio'r cysyniad 'gwneud i bob cyswllt gyfrif'. | Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid                           |          | X        |          |
| 7. Symud gwasanaethau tai cyngor i gymunedau trwy ganolfannau cwsmeriaid a gweithio ystwyth a chreu mwy o gyfleoedd i denantiaid a phrydleswyr ymgysylltu trwy gyfleoedd ar y rhyngwrdd i reoli eu cyfrifon a gofyn am waith trwsio.           | Rheolwraig Gwasanaethau Tai                                 |          | X        | X        |
| 8. Creu gwasanaeth un stop i denantiaid cyngor sy'n galluogi i nifer o ymholiadau gael eu trin mewn un rhyngweithiad.                                                                                                                          | Rheolwraig Gwasanaethau Tai / Rheolwraig Cefnogi Pobl       |          | X        | X        |
| 9. Datblygu protocol rhannu data a llwybrau yn ymdrin â chwsmeriaid sydd ag anghenion cymhleth. Trwy rannu adnoddau ac o bosibl rhannu gwasanaethau cymorth, gall gwasanaeth gwell gael ei ddatblygu ar gyfer achosion cymhleth.               | Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid / Rheolwraig Cefnogi Pobl |          | X        | X        |
| 10. Cynnal adolygiad o'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol ac ystyried sut y gallai caffael ar y cyd a rhannu adnoddau gynnig gwasanaeth mwy cost effeithiol.                              | Rheolwraig Cefnogi Pobl                                     |          | X        |          |
| <b>5. Cyflawni gwell cynnig yn hwyrach mewn oes</b>                                                                                                                                                                                            |                                                             | <b>X</b> | <b>X</b> | <b>X</b> |
| 1. Sefydlu ffrwd gwaith yn y Bartneriaeth Cartrefi Fforddiadwy yn edrych ar y gofynion byw yn hwyrach mewn oes a'r dewisiadau i annog cael y maint cywir.                                                                                      | Swyddog Strategaeth Tai / Prif Swyddog Strategaeth Tai      | X        | X        |          |
| 2. Gyda phartneriaid, sefydlu 'map ffordd' sy'n nodi sut y byddwn yn dylunio a datblygu cynnig tai i bobl hŷn.                                                                                                                                 | Prif Swyddog Strategaeth Tai                                |          | X        |          |
| 3. Cymharu sut mae'r cynnig presennol yn cyflawni'r hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud wrthym eu bod ei eisiau a ble mae'r bylchau yn y ddarpariaeth.                                                                                             | Prif Swyddog Strategaeth Tai                                |          | X        |          |
| 4. Nodi fframwaith o fuddsoddiad a phartneriaethau ar gyfer cau'r bylchau hynny, ac yn benodol, swyddogaeth landlordiaid cymdeithasol trwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.                                                                    | Pennaeth Strategaeth a Datblygu                             |          | X        |          |
| 5. Archwilio'r dewisiadau i ehangu'r ystod o wasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Gwella Cartrefi i gynnal byw'n annibynnol am amser hwy.                                                                                                 | Rheolwraig Tai'r Sector Preifat                             |          |          | X        |
| 6. Ystyried a ddylai'r 2il Gynllun Datblygu Lleol newydd fod â gofynion ffurfiol o ran darpariaeth i bobl hŷn, yn gysylltiedig â throthwyon y safle.                                                                                           | Prif Gynllunydd                                             |          | X        |          |
| 7. Adeiladu ar dwf technolegau digidol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig Covid-19.                                                                                                                                                              | Pobl                                                        | X        | X        | X        |
| 8. Ailfodelu, ailddyrannu ac ailddatblygu llety gwarchod y Cyngor i ymateb i'r newid yn anghenion a dyheadau tenantiaid hŷn a sicrhau dyfodol yr asedau hyn.                                                                                   | Rheolwraig Gwasanaethau Tai                                 |          | X        | X        |

## Blaenoriaeth 2: Creu Lleoedd Gwych i Fyw

|                                                                                                                                                                                                                          | Cyfrifoldeb                                                                     | Ebrill 2022-<br>Mawrth 2023 | 2023-24 | 2024-26 |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|---------|---------|
| <b>1. Ail-dafoli ein marchnadoedd</b>                                                                                                                                                                                    |                                                                                 |                             | X       |         |
| 1. Datblygu'r blaenoriaethau tai ar draws Caerffili sy'n nodi'r gofynion tai manwl mewn marchnadoedd lle'r ydym yn gwybod bod bylchau yn y cyflenwad trwy gyd-gynhyrchu i adlewyrchu uchelgais pobl leol.                | Prif Swyddog Strategaeth Tai / Rheolwraig Cefnogi Pobl                          |                             | X       |         |
| 2. Datblygu canllaw manwl ar y gofyn am dai ledled y Fwrdeistref Sirol (math, maint, daliadaeth ac ati) i fuddsoddwyr a'u hyrwyddo trwy'r fforwm datblygwyr.                                                             | Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio                                                  |                             | X       |         |
| <b>2. Canfod defnydd gwahanol i ganol trefi</b>                                                                                                                                                                          |                                                                                 | X                           | X       |         |
| 1. Datblygu cyfres o gynlluniau lleoedd, yn nodi blaenoriaethau yn cael eu harwain gan dai, y nifer bosibl o gartrefi, modelau cyflawni, daliadaethau gwahanol, a dynodi safleoedd posibl.                               | Pennaeth Strategaeth a Datblygu                                                 | X                           | X       |         |
| 2. Archwilio'r potensial o greu cynnig rhentu adeiladu o'r newydd, yn canolbwyntio o bosibl ar ganol ein trefi ond hefyd fel rhan o'r cynnig mewn lleoliadau eraill.                                                     | Pennaeth Strategaeth a Datblygu                                                 |                             | X       |         |
| <b>3. Cefnogi lleoedd o safon uchel a dylunio</b>                                                                                                                                                                        |                                                                                 |                             |         | X       |
| 1. Datblygu Egwyddorion Creu Lleoedd Caerffili i'w defnyddio ym maes cynllunio gyda'r Siarter Creu Lleoedd i sicrhau ein bod yn ystyried elfennau dylunio creu lleoedd perthnasol wrth ddatblygu lleoedd o safon uchel . | Douglas McGlynn                                                                 |                             | X       | X       |
| 2. Archwilio manteision posibl datblygu Dogfen Gynllunio Ategol Caerffili yn nodi gofynion lleol ar gyfer Lleoedd a Datrysiadau ar sail Lle.                                                                             | Douglas McGlynn                                                                 |                             | X       | X       |
| <b>4. Cyrraedd targedau sero carbon, hyrwyddo blaengaredd a dylunio rhagorol</b>                                                                                                                                         |                                                                                 | X                           | X       | X       |
| 1. Archwilio dewisiadau i ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern i helpu i ddatblygu ar raddfa a chyflymder, lleihau'r defnydd o ynni, lliniaru effeithiau newid hinsawdd a chefnogi'r economïau sylfaenol a chylchol.       | Pennaeth Strategaeth a Datblygu                                                 | X                           | X       |         |
| 2. Datblygu gweithgor datgarboneiddio i archwilio arfer gorau a rhannu adnoddau i ariannu cynlluniau treialu ac ymchwilio trwy'r Bartneriaeth Cartrefi Fforddiadwy.                                                      | Pennaeth Cynnal a Chadw a Thrwsio Asedau                                        | X                           | X       | X       |
| 3. Datblygu pecyn addysg ar gyfer preswylwyr/tenantiaid i wneud y defnydd gorau o'u cartref presennol a'u cartref wedi ei ôl-osod. Gallai hyn fod yn berthnasol i denantiaid/preswylwyr cartrefi newydd sero net carbon. | Pennaeth Strategaeth a Datblygu / Pennaeth Asedau, Cynnal a Chadw ac Atgyweirio |                             | X       |         |

### Blaenoriaeth 3: Creu Cartrefi Iach a Chymunedau Bywiog

|                                                                                                                                                                                                                                               | Cyfrifoldeb                                        | Ebrill 2022-<br>Mawrth<br>2023 | 2023-24 | 2024-26 |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|--------------------------------|---------|---------|
| <b>1. Ein hymrwymiad i Gofalu am Gaerffili</b>                                                                                                                                                                                                |                                                    | X                              | X       |         |
| 1. Ochr yn ochr â landlordiaid cymdeithasol, bydd y Cyngor yn hyrwyddo, cymryd rhan a chefnogi Gofalu am Gaerffili ac yn cyfeirio preswylwyr trwy ein cyswllt o ddydd i ddydd, gan gwmpasu'r model Gofalu am Gaerffili yn 'busnes fel arfer'. | Rheolwraig<br>Gwasanaethau<br>Tai /Tina<br>McMahon | X                              | X       |         |
| 2. Sefydlu 'rhaglen gyswllt', yn dynodi ble a sut y gallwn gysylltu cwsmeriaid â Gofalu am Gaerffili.                                                                                                                                         | Rheolwraig<br>Gwasanaethau<br>Tai /Tina<br>McMahon |                                | X       |         |
| 3. Archwilio sut y gall tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gryfhau eu partneriaeth, rhannu data, a gwella deilliannau i bobl leol.                                                                                                       | Rheolwraig<br>Gwasanaethau<br>Tai                  |                                | X       |         |
| <b>2. Cefnogi effeithlonrwydd ynni a chynhesrwydd fforddiadwy</b>                                                                                                                                                                             |                                                    | X                              | X       | X       |
| 1. Rhoi cyngor i bobl am gamau arbed ynni ac effeithlonrwydd i leihau gwariant aelwydydd.                                                                                                                                                     | Rheolwraig<br>Tai'r Sector<br>Preifat /SM/SI       | X                              | X       | X       |
| 2. Buddsoddi £101.2m yn ychwanegol mewn cartrefi Cyngor, dros y 5 mlynedd nesaf i gynnal y stoc dai gan gynnwys y rhaglen PAMS, ailfodelu tai gwarchod, eiddo gwag ar raddfa fawr, addasiadau, a phrosiectau unwaith ac am byth.              | Asedau,<br>Cynnal a<br>Chadw ac<br>Atgyweirio      | X                              | X       | X       |
| <b>3. Mynegai cartrefi ac iechyd ardal Caerffili</b>                                                                                                                                                                                          |                                                    | X                              | X       |         |
| 1. Creu digwyddiad Creu Lleoedd gyda phartneriaid sy'n galluogi sgysiau ehangach am yr hyn sy'n gwneud ardal iach. Datblygu set o safonau Caerffili y gall partneriaid eu defnyddio.                                                          | Douglas<br>McGlynn                                 | X                              | X       | X       |
| 2. Datblygu Canllaw Dylunio Creu Lleoedd Caerffili y gall partneriaid ei ddefnyddio ar gyfer datblygiadau newydd.                                                                                                                             | Douglas<br>McGlynn                                 | X                              | X       |         |

## Blaenoriaeth Strategol 4: Darparu Cartrefi Newydd

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Cyfrifoldeb                                       | Ebrill 2022-<br>Mawrth 2023 | 2023-24 | 2024-26 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|-----------------------------|---------|---------|
| <b>1. Gwella'r broses gyfredol ar gyfer ceisiadau cynllunio</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                   |                             | X       |         |
| 1. Cynnal adolygiad gweithdrefnol o geisiadau cynllunio i sefydlu ble mae'r rhwystrau gyda rhanddeiliaid. Bwriedir cynnwys profiadau ymgeiswyr fel offeryn ar gyfer dysgu a gwella'r broses ac archwilio'r potensial ar gyfer dull tîm datblygu mewnol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio                    |                             | X       |         |
| 2. Archwilio'r defnydd o Gytundebau Perfformiad Cynllunio, sy'n annog cydweithio ac yn rhoi proses effeithlon a thryloyw i bennu ceisiadau cynllunio mawr a/neu gymhleth.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio / Rheolwr Datblygu |                             | X       |         |
| <b>2. Hyrwyddo dull 'Agored ar gyfer Busnes'</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                   | X                           | X       | X       |
| 1. Sefydlu gofynion adnodd ar-lein i ddatblygwyr a landlordiaid cymdeithasol gan weithio gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Prif Gynllunydd                                   |                             |         | X       |
| 2. Datblygu offeryn ar-lein i helpu datblygwyr o bob math i fynd trwy a deall y broses ddatblygu tai, a'r dystiolaeth am yr angen a'r galw yng Nghaerffili.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Prif Gynllunydd                                   |                             |         | X       |
| 3. Datblygu adnodd ar-lein gyda'r holl dystiolaeth gyfredol, y polisiâu cynllunio, peirianweithiau cyflawni, cyllid, cyfleoedd o ran tir, a'r cysylltiadau allweddol yn y Cyngor.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Prif Gynllunydd                                   |                             |         | X       |
| 4. Hyrwyddo yn eang i ddatblygwyr a landlordiaid cymdeithasol gan gynnwys sesiynau cymorth a hyfforddiant.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Prif Gynllunydd                                   |                             |         | X       |
| 5. Archwilio'r potensial o ddatblygu proses gwyno am bolisi trwy ein system gynllunio, lle mae cynlluniau sy'n bodloni angen lleol, fel sy'n cael ei nodi yn ein cronfa dystiolaeth, yn gallu cyflawni statws cynllunio wedi ei gymeradwyo trwy beirianwaith lliflin.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio                    |                             | X       |         |
| 6. Cynnal Arddangosfa Dai. Adolygu ymarfer gorau a chynnal cystadleuaeth 'galwad am fodelau newydd', datblygu dulliau a modelau cyflawni newydd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Pennaeth Strategaeth a Datblygu                   |                             | X       |         |
| <b>3. Adeiladu cyflenwad iach o dai ar gyfer cartrefi newydd.</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                   | X                           | X       |         |
| <p>1. Cynnal adolygiad o'r holl dir ac ystadau dan reolaeth y Cyngor i ddynodi tir ychwanegol ar gyfer tai a dewisiadau cyflenwi safleoedd yn y tymor byr, canolig a hwy. Dylai'r broses hon ystyried ffyrdd creadigol y gellir ail-siapio defnydd gwasanaethau o'r safleoedd presennol i ryddhau tir ychwanegol ar gyfer tai. Gallai'r cynlluniau posibl gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Deall pa dir sydd yn nwylo'r Fwrdeistref Sirol a sut y gellir ei ddefnyddio orau, a sut y gall partneriaethau gael eu datblygu i ddwyn safleoedd ymlaen gyda phwyslais ar rannu gwybodaeth ac adnoddau.</li> <li>Cyfuno tir y Cyngor gyda thir cyrff cyhoeddus i greu portffolio mwy deniadol.</li> <li>Ystyried cyd-osod gydag asiantaethau cyhoeddus eraill a gwaredu safleoedd lle mae lleoliad neu ddarpariaeth gwasanaethau yn hyblyg.</li> <li>Ystyried symud gwasanaethau o safleoedd o werth uchel a all fod â photensial ailddatblygu sylweddol ar gyfer cartrefi newydd a gwasanaethau swyddi i leoliadau eraill (Gogledd). Mae'n cael ei gydnabod bod yn dal angen i Wasanaethau'r Cyngor barhau i wynebu'r cyhoedd a bod mewn lleoliadau hygyrch, cynaliadwy. Dyna ddylai fod yn brif sbardun.</li> <li>Dynodi'r cyfleoedd i greu safleoedd (trwy brynu a dymchwel adeiladau), ail-ddynodi defnydd tir o gyflogaeth i dai (yng nghanol trefi yn neilltuol), gwerthu asedau, defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol (lle mae perchnogaeth tir yn atal twf yn y Fwrdeistref Sirol).</li> <li>Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd o'r Gronfa Gaffael Safleoedd Strategol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gaffael tir yng nghanol trefi lleol er mwyn adfywio'r canolfannau. Gall hyn weld mwy o bobl o ganlyniad i'r cynnydd yn y duedd i weithio o gartref (am rywfaint o'r amser neu trwy gydol yr amser), yn hytrach na chymudo i ddinasoedd mwy.</li> <li>Cynnal adolygiadau cylchol o asedau'r staff (e.e. bob tair blynedd) yng ngoleuni'r newid yn y blaenoriaethau darparu gwasanaethau.</li> </ul> | Rheolwr Datblygu                                  | X                           | X       |         |

| 4. Datblygu prospectws tai fforddiadwy                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                   |                                                | X | X |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------|------------------------------------------------|---|---|
| <p>1. Diweddarau'r Canllawiau Cynllunio Ategol Tai Fforddiadwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Angen math o ddaliadaeth tai fforddiadwy – dylai hyn gynnwys rhent cymdeithasol neu fforddiadwy, modelau Adeiladu i Rentu, ac amrywiol ffurfiau o fodelau perchnogaeth cartref canolradd.</li> <li>Angen maint daliadaeth tai fforddiadwy – dylai hyn fod yn benodol i'r amrywiaeth mewn mathau o ddaliadaeth. Dylai unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer meintiau penodol o ddaliadaeth neu fathau o dai fforddiadwy mewn ardaloedd penodol o'r Fwrdeistref Sirol gael eu trafod.</li> <li>Gofynion tai fforddiadwy a'r gofynion am safleoedd tir gwyrdd, gan ystyried y cyfle i sicrhau bod y cyflenwad mwyaf o dai cymdeithasol yn cael ei ddarparu.</li> <li>Dull y Cyngor o ymdrin â thir llwyd a safleoedd llai sy'n cynnig gofynion realistig ond uchelgeisiol, a'r gofynion ar eu cyfer nhw, i sicrhau tai sy'n wirioneddol fforddiadwy.</li> <li>Gofynion tai fforddiadwy'r Cyngor ar gyfer datblygu gwahanol fathau o anghenion tai arbenigol, er enghraifft llety preswyl i bobl hŷn.</li> <li>Disgwyliadau'r Cyngor o ran safonau gofod ac eiddo wedi ei addasu/y gellir ei addasu i'r anabl.</li> <li>Dull y Cyngor o ymdrin â datblygwyr sy'n cynnig dewisiadau gwahanol i ddarpariaethau Adran 106 ar y safle, gan gynnwys darpariaeth oddi ar y safle neu arian parod yn ei le.</li> <li>Gofynion y Cyngor o ran gosod a rheoli lefelau rhent fforddiadwy a chost perchnogaeth cartref fforddiadwy ar y dechrau ac wrth eu gosod/gwaredu wedyn.</li> <li>Unrhyw feini prawf ychwanegol ar gyfer cartrefi fforddiadwy.</li> <li>Sut a ble fydd y Cyngor yn gwario taliadau adran 106 a dderbyniwyd yn lle darpariaeth ar y safle.</li> <li>Tystiolaeth ar gyfer gofynion rhent fforddiadwy a gwerthu, a sefydlu beth sy'n 'wirioneddol fforddiadwy' i bobl leol.</li> <li>Sefydlu'r gofyn i asesu hygyrchedd tai fforddiadwy newydd.</li> </ul> <p>Dylai'r Prospectws Tai Fforddiadwy ystyried y cyfle i ddatblygu darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle sy'n seiliedig ar hyfywedd a'r ddarpariaeth bresennol, gan gynyddu'r cyfle i gael cydbwysedd yn ôl o ran daliadaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn gofyn am:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sail dystiolaeth gadarn sy'n nodi'r lleoliadau ar gyfer darpariaeth ar y safle a lleoliadau lle mai symiau wedi eu cymudo fydd y dewis.</li> <li>Polisi symiau wedi eu cymudo cadarn a manwl.</li> <li>Adolygiad ac ehangu'r cyfleoedd posibl i ddefnyddio symiau a gymudwyd gan fanteisio ar arfer gorau mewn mannau eraill.</li> <li>Sefydlu proses a pholisi blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi cyllid o'r gronfa Symiau a Gymudwyd a gwahodd ceisiadau.</li> </ul> |                                   | Prif Gynllunydd / Prif Swyddog Strategaeth Tai | X | X |
| 5. Gyrru blaengaredd a chydweithio trwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                   |                                                | X | X |
| 1. Cynhyrchu targedau cyflawni fforddiadwy 5 mlynedd ar gyfer pob landlord cymdeithasol i'w trafod gyda'r Bartneriaeth Cartrefi Fforddiadwy.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Pennaeth Strategaeth a Datblygu   | X                                              |   |   |
| 2. Archwilio cyfleoedd i hyrwyddo defnydd effeithiol o'r stoc dai cymdeithasol bresennol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid |                                                | X |   |
| 6. Y Cyngor fel datblygwr, hwylusydd a buddsoddwr wrth gyflawni cartrefi newydd a thai fforddiadwy                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                   |                                                | X | X |
| <p>1. Datblygu Strategaeth Ddatblygu 5-10 mlynedd ar gyfer y Cyngor sy'n nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweledigaeth ac amcanion y Cyngor wrth ddarparu cartrefi Cyngor wedi eu hadeiladu o'r newydd, a'r dull y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i sicrhau bod cartrefi newydd y Cyngor yn cyfrannu at gymunedau llwyddiannus a thwf yn yr economi leol.</li> <li>Protocol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng y Cyngor a rhanddeiliaid i ddatblygu cartrefi newydd.</li> <li>Targedau cyflawni ar gyfer tai fforddiadwy.</li> <li>Targedau cyflawni ar gyfer tai ar y farchnad.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Pennaeth Strategaeth a Datblygu   | X                                              |   |   |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                 |   |   |   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|---|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Modelau cyflawni a pheirianweithiau ar gyfer buddsoddi yn y farchnad.</li> <li>• Cyfleoedd i greu cyfleoedd datblygu newydd trwy werthuso dewisiadau stoc y cyngor.</li> <li>• Cyllid ac adnoddau.</li> <li>• Safonau ac ansawdd.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                 |                                 |   |   |   |
| <p>2. Datblygu pecyn offer cyflawni i'r Cyngor i hwyluso a buddsoddi mewn safleoedd tai penodol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Cyngor yn cyflawni safleoedd nad ydynt yn hyfyw mewn ardaloedd lle mae'r farchnad wedi methu a bod angen ymyrryd i gefnogi adfywio'r ardal yn ehangach.</li> <li>• Ymchwilio i gyfleoedd am y galw posibl a'r math o eiddo y dylid ei ddarparu, a lefelau'r rhent a fyddai'n darparu dewisiadau tai i weithwyr allweddol. Ystyried y modelau i gyflawni hynny.</li> </ul> | Pennaeth Strategaeth a Datblygu |   | X |   |
| <b>7. Dwyn cartrefi gwag yn ôl i ddefnydd</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                 | X |   |   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dwyn cartrefi gwag yn ôl i ddefnydd trwy:</li> <li>• Ddatblygu presenoldeb ar y we i roi cyngor a chymorth i berchenogion a landlordiaid.</li> <li>• Parhau i ddynodi eiddo a fu'n berchen i'r Cyngor a werthwyd dan y broses Hawl i Brynu a'u caffael gan ddefnyddio grant y llywodraeth i'w dwyn yn ôl i ddefnydd fel tai cymdeithasol, gan helpu'r Cyngor i ddiwallu'r angen am dai.</li> </ul>                                                                                           | Rheolwraig Tai'r Sector Preifat | X |   |   |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Prif Swyddog Strategaeth Tai    | X | X | X |
| <b>8. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwerth cymdeithasol, economi sylfaenol ac economi gylchol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                 | X | X | X |
| <p>1. Bod yn bartner gweithredol yn strategaeth "Tai Plws" partneriaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, lle mae manteision gwerth ychwanegol fel hyfforddiant, adeiladu, prentisiaethau, gwytnwch ynni, a chreu swyddi yn cael eu nodi'n glir a'u mabwysiadu.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                       | Pennaeth Strategaeth a Datblygu | X | X | X |

## Blaenoriaeth 5: Cefnogi Anghenion Tai Arbenigol

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Cyfrifoldeb                | Ebrill 2022-<br>Mawrth 2023 | 2023-24  | 2024-26 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|-----------------------------|----------|---------|
| <b>1. Datblygu prospectws llety arbenigol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                            | <b>X</b>                    | <b>X</b> |         |
| 1. Diweddarau'r asesiad anghenion i ddatblygu gwaelodlin ar gyfer unigolion sydd angen llety arbenigol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Rheolwraig<br>Cefnogi Pobl |                             | X        |         |
| 2. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth, paratoi prospectws llety arbenigol i ymgysylltu â'r farchnad a chomisiynu llety newydd, gan ganolbwyntio ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>• uchafu'r nifer o bobl ag angen arbenigol sy'n byw yn eu cartref eu hunain gyda rhywun y maent yn dewis byw gydag o neu hi;</li> <li>• ehangu'r ystod a'r dewis o dai, gofal, a gwasanaethau cymorth, gan roi mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau; a</li> <li>• nodi'r partneriaid sydd angen ymgysylltu â'r agenda hon a chynllunio i gyflawni hyn fel Gwasanaethau Cymorth Tai a Landlordiaid Preifat.</li> </ul>                                                                                                                                                          | Rheolwraig<br>Cefnogi Pobl |                             | X        |         |
| 3. Cynnal adolygiad asesiad llety ar sail 'Buddsoddi i Arbed' i ddiffinio'r defnydd mwyaf priodol o'n llety presennol. Gall y dewisiadau gynnwys ailfodelu a datgomisiynu, a gellir comisiynu cynlluniau newydd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Rheolwraig<br>Cefnogi Pobl |                             | X        |         |
| 4. Datblygu Grŵp Dewisiadau Llety i greu llwybrau unigol i bobl sydd angen llety arbenigol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Rheolwraig<br>Cefnogi Pobl | X                           |          |         |
| 5. Datblygu protocol rhannu data gyda'r holl bartneriaid i gryfhau gwybodaeth a chefnogi gwasanaeth a gwneud y defnydd gorau o lety.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Rheolwraig<br>Cefnogi Pobl | X                           |          |         |
| <b>2. Datblygu strategaeth gyflawni tymor hwy</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                            | <b>X</b>                    | <b>X</b> |         |
| 1. Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol a darparwyr y farchnad i gryfhau ein tystiolaeth am y math o lety arbenigol y mae ei angen yng Nghaerffili.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Rheolwraig<br>Cefnogi Pobl | X                           |          |         |
| 2. Nodi modelau cyllido a chyflawni ar gyfer llety symud ymlaen, a datblygu gwell cynlluniau byw â chymorth gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Clystyrau o unedau mewn lleoliadau unigol i unigolion ag anableddau dysgu a heriau iechyd meddwl.</li> <li>• Cynlluniau cyd-fyw o safon uchel, yn cael eu rheoli'n broffesiynol gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi unigol ond rhywfaint o le cymunedol i reoli byw preifat ac a rennir.</li> <li>• Fflatiau ar sail diben gyda chefnogaeth a hyfforddiant i unigolion sy'n defnyddio sylweddau ac alcohol.</li> <li>• Llety symud ymlaen unigol 1 ystafell wely wedi eu gwasgaru trwy'r Fwrdeistref Sirol.</li> <li>• Cyfle i bobl ag anableddau tymor hir i fod yn berchen eu cartref.</li> </ul> | Rheolwraig<br>Cefnogi Pobl |                             | X        |         |
| <b>3. Atal digartrefedd a chysgu allan</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                            | <b>X</b>                    | <b>X</b> |         |
| 1. Datblygu a gweithredu Cynllun Trosglwyddo Ailgartrefu Cyflym: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu ein tystiolaeth i ddynodi'r galw a ragwelir am wasanaethau yn awr a dros y pum mlynedd nesaf.</li> <li>• Dynodi'r gofyn am dai parhaol, cymhlethdod y gofyn a, phan fydd yn bosibl, rhoi cynhwysiant yn y rhaglen ddatblygu adeiladu o'r newydd.</li> <li>• Ystyried y lleoliad a'r math tebygol o lety a'r cymorth sy'n angenrheidiol.</li> <li>• Mapio nifer, ansawdd a lleoliad tai dros dro ar draws y Fwrdeistref Sirol.</li> <li>• Dynodi'r adnoddau y bydd arnom eu hangen.</li> </ul>                                                                                                                                                         | Rheolwr<br>Atebion Tai     | X                           |          |         |
| 2. Ymchwilio a llunio tystiolaeth am yr hyn sy'n cyfrannu at achos sylfaenol cysgu allan a chreu ymateb wedi ei deilwrio o gymorth a llety.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Rheolwr<br>Atebion Tai     |                             | X        |         |
| 3. Ymchwilio i raddfa a'r dewisiadau posibl i gefnogi a lleihau symud o sofffa i sofffa, yn ogystal â'r galw am Ddarpariaeth Cymorth yn Gysylltiedig â Thai a'r bylchau yn y ddarpariaeth.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Rheolwr<br>Atebion Tai     |                             | X        |         |
| <b>4. Gwellu'r modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                            | <b>X</b>                    |          |         |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                    |          |          |  |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|----------|----------|--|
| 1. Adolygu sut yr ydym yn gwneud asesiadau cychwynnol am ein cyfrifoldeb am aelwydydd digartref fel ein bod yn gallu ymateb yn fwy effeithiol trwy asesu gofynion pobl yn gyflymach. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ganolbwyntio ar gymorth mwy ataliol trwy gyfeirio pobl at gyngor a chymorth, pan fydd hynny'n ofynnol, a chanolbwyntio ein hadnoddau ar y bobl hynny sydd angen cael cynnig llety. | Rheolwr Atebion Tai                                | X        |          |  |
| <b>5. Cynyddu darpariaeth llety</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                    | <b>X</b> | <b>X</b> |  |
| 1. Archwilio'r cyfleoedd y gall y Sector Preifat ar Rent eu cynnig i ddarparu atebion i bobl sydd ag angen o ran tai.                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Rheolwr Atebion Tai                                |          | X        |  |
| 2. Archwilio'r potensial i ehangu graddfa Allweddi Caerffili.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Rheolwr Atebion Tai                                | X        |          |  |
| 3. Sefydlu ffrwd gwaith y Bartneriaeth Cartrefi Fforddiadwy i archwilio'r gofyn am lety dros dro a pheirianweithiau i'w ddarparu.                                                                                                                                                                                                                                                                       | Rheolwr Atebion Tai / Prif Swyddog Strategaeth Tai |          | X        |  |